Cygnor
Nyrsio a
Bydwreigiaeth

# Gofal da gan nyrsys a bydwragedd

## Beth mae ein Cod proffesiynol yn ei olygu i chi







P’un a ydych yn cael llawdriniaeth, yn disgwyl babi neu’n cael profion yn eich clinig lleol, rydych am gael gofal da gan eich nyrs neu fydwraig. Rydych eisiau teimlo’n ddiogel, a’u bod yn gofalu amdanoch ac yn gwrando arnoch, ac mae’r un peth yn wir am berthynas neu rywun rydych yn gofalu amdano. Nid oes gwahaniaeth p’un a yw’r gofal yn cael ei roi mewn meddygfa, ysbyty, uned bydwreigiaeth, cartref gofal neu yn eich cartref eich hun.

Rydym yn y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth hefyd eisiau i bobl gael gofal da. Rydym wedi llunio Cod proffesiynol y mae’n rhaid i bob nyrs a bydwraig ei ddilyn. Mae’n egluro ystyr gofal da a beth y dylai pob un ohonom ei ddisgwyl.

- ☑ Mae eich nyrs neu fydwraig yn garedig ac yn barchus, ac yn blaenoriaethu gofal a diogelwch. Mae’n eich helpu ac yn eich annog i fod yn rhan o benderfyniadau ynglŷn â’ch gofal.
- ☑ Mae eich nyrs neu fydwraig yn gwrando arnoch ac yn nodi eich pryderon. Mae’n parchu eich hawl i urddas, breifatrwydd a chyfrinachedd. Mae’n rhannu gwybodaeth am eich iechyd, gofal a thriniaeth â chi mewn ffordd y gallwch ei deall.






- ☑ Mae eich nyrs neu fydwraig yn agored ac yn onest am eich gofal a'ch triniaeth. Mae'n gwneud yn siŵr eich bod yn ddiogel ac yn lleihau'r risg o gamgymeriadau a niwed cymaint â phosibl. Os bydd yn gwneud camgymeriad, bydd yn ymddiheuro i chi, gan egluro beth ddigwyddodd yn brydlon, yn ogystal â'r effeithiau tebygol.

- ☑ Mae eich nyrs neu fydwraig yn ymddwyn gyda gonestrwydd ac uniondeb bob amser. Mae'n codi pryderon yn ddi-oed os yw'n credu eich bod yn agored i niwed, mewn perygl, neu os oes angen mwy o gymorth a diogelwch arnoch. Mae'n cymryd camau gweithredu os yw'n bryderus am ofal a diogelwch cleifion.

- ☑ Mae eich nyrs neu fydwraig yn talu sylw i'ch lles, yn ogystal â'ch triniaeth neu ofal. Mae'n eich helpu i gael gafael ar y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnoch.

**Y Cod ar gyfer nyrsys a bydwragedd**

Mae'r Cod yn eich rhoi chi wrth wraidd y gofal. Mae'n nodi'r safonau proffesiynol y mae'n rhaid i nyrsys a bydwragedd eu cyrraedd. Dyma'r safonau a ddangosir bob dydd gan nyrsys a bydwragedd da ledled y DU. Mae gan y Cod bedair thema.




- ☑ Blaenoriaethu pobl
- ☑ Ymarfer yn effeithiol
- ☑ Cynnal diogelwch
- ☑ Annog proffesiynoldeb ac ymddiriedaeth

To find out more about the Code please go to www.nmc.org.uk/code.



**Beth allaf ei wneud os nad wyf yn fodlon ar y gofal?**

Os byddwch yn anfodlon ar y gofal rydych chi neu rywun arall wedi'i gael, dywedwch wrth rywun. Y ffordd orau o wneud hyn yw drwy ddweud wrth rywun yn y lleoliad lle y cawsoch y gofal (er enghraifft yn yr ysbyty neu mewn cartref gofal).
Dylent fynd i'r afael â phryderon yn gyflym, heb gael unrhyw effaith negyddol ar y gofal a roddir. I gael rhagor o wybodaeth am fynegi eich pryderon, ewch i **www.nmc.org.uk/report-nurse-midwife** neu ffoniwch ni ar **020 7462 5800**.

**Amdanom ni**

Rydym yn pennu'r safonau ar gyfer addysg, hyfforddiant, ymddygiad a pherfformiad er mwyn i nyrsys a bydwragedd allu darparu gofal iechyd o safon uchel drwy gydol eu gyrfaoedd. Rhaid i bob nyrs a bydwraig yn y DU gofrestru â ni a dilyn ein Cod.

**www.nmc.org.uk**